CRYNODEB O ARFARNIAD A CHYNLLUN DATBLYGU YSGOL BRO ALUN 2023–24 A BLAENORIAETHAU 2024–25

Rydym yn adolygu'n barhaus ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Bro Alun.Trwy'r broses o hunan–arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.

EIN CRYFDERAU

Arweinyddiaeth

Mae fframwaith hunan arfarnu rheolaidd mewn lle sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn ran annatod o fywyd yr ysgol.

Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgol

Addysgu a dysgu

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol wedi eu sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae amgylchedd diogel a symbylus ar draws holl ardaloedd dysgu ble gall plentyn fentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.

Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn gydlynus er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.

Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd .

Mae ein cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.

Lles, Tegwch a Chynhwysiant

Mae strwythurau a phrosesau cadarn iawn ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae trefniadau cadarn mewn lle i asesu a chefnogi lles disgyblion.

LLWYDDIANT BLAENOROL

- **Codi safon llafar y disgbylion**
- Mae tystiolaeth o beth gwelliant ar draws yr ysgol gan fod dosbarthiadau wedi mabwysiadu dull addysgu 'Drilio Disglair'.
- Mae'r defnydd o gynllun Cylch Meithrin 'Croesi'r Bont' wedi sicrhau bod disgyblion y blynyddoedd cynnar yn adeiladu ar y sgiliau a ddatblygwyd eisoes mewn lleoliadau cyn ysgol.

- **Datblygu'r dysgu yn yr awyr agored er mwyn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol y disgyblion yn ogystal â darparu cyfleoedd dilys i ddysgwyr ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau trawsgwricwlaidd.**
- Cwblhawyd hyfforddiant staff sydd wedi cael dylanwad cadarnhaol ac wedi rhoi pwrpas i ddysgu yn yr awyr agored.
- Mae gan y plant ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn eu rôl yn natblygiad ardal yr ysgol goedwig

- **Gwreiddio elfennau statudol Addysg Chydberthnasedd a Rhywioldeb**

Mae'r unedau o waith a addysgwyd wedi bod yn addas i'r cam cynnydd ar gyfer y disgyblion ac maent wedi ymateb gyda diddordeb ac ymwybyddiaeth gynyddol gyda'u llais yn arwain y dysgu.

BLAENORIAETHAU GWELLA

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau y gallwn i'n disgyblion.

1

Codi safon llafar y disgbylion

Rhesymau dros y flaenoriaeth:
Angen parhau i magu hyder, rhuglder a pharodrwydd y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg. Credwn trwy gyfoethogi eu sgiliau iaith lafar y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hysgrifennu.
Targed:
Disgyblion yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn naturiol ar fuarth yr ysgol a thu hwnt i'r dosbarth mewn iaith gywir, cyfoethog a graenus. Bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn adlewyrchu hyn.

2

Sicrhau cysondeb o ran dulliau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Rhesymau dros y flaenoriaeth:
Sicrhau cynnig teg o ddysgu i bob dysgwr

Targed:
Sicrhau cynnydd a dysgu eithaf i bob dysgwr

3

Gwella sgiliau Rhifedd gyda ffocws ar rif.

Rhesymau dros y flaenoriaeth:
Parhau i adeiladu ar hyder a sgiliau rhifedd disgyblion y gellir eu trosglwyddo i sefyllfaoedd bywyd go iawn.
Targedau:

- Disgyblion sy'n datrys problemau hyderus, cymwys ac annibynnol ym mhob agwedd o ddysgu a bywyd. Eu bod yn hyderus ac yn rhugl wrth ddefnyddio rhifau.

4

Sicrhau bod lefel priodol o her yn cael ei darparu i bob dysgwr.

Rhesymau dros y flaenoriaeth:
Sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posibl.
Targedau:
Dysgwyr hyderus sy'n barod i herio eu hunain i fentro heb ofni methu.

Pwy sy'n Cefnogi?
GWE
Awdurdod Lleol
Cydlynudd Siarter Iaith
Gwasanaeth Cefnogi Hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg